Bwletin Llên Natur

*Golwg newydd ar y byd o'n cwmpas*

Rhifyn 84
Chwefror 2014



## Pont Grog y Borth, 30 Rhagfyr 2014

**Llun a chapsiynnau: Alun Williams**
Roedd hwn yn lun anodd, *exposure* o 30 eiliad a cheisio peidio llosgi y golau llachar rhag iddynt droi yn wyn. Roeddwn hefyd angen llanw uchel ac awyr glir tua deg munud cyn i'r awyr droi yn ddu.

*White Knight says to Alice,*
*'I heard him then,*
*for I had just completed my design.*
*To keep the Menai Bridge from rust.*
*By boiling it in wine.*
Lewis Carrol, Through the Looking Glass

### 50 mlynedd yn ôl

Cofio mynd i'r ysgol y diwrnod hwn Mawrth 3 1965, rhyw fore ddigon llwydaidd. Erbyn amser cinio fe ddechreuodd hi fwrw eira yn drwm, a'r penderfyniad yn Ysgol Dyffryn Nantlle oedd gyrru pawb adref. Cychwynnais i a chriw o blant eraill o'r Groeslon gerdded am adref - taith o ddwy filltir; 'roedd y tywydd yn gwaethygu. Erbyn cyrraedd Garth Dorwen, daeth bws dybl dec Crosville yn araf drwy'r eira. Yr adeg hynny oedd yna yrrwr a chondyctor ar y bws, ac roedd chwarter ôl y bws yn agored. Fel daeth y bws atom gwaeddodd y condyctor wrthym am neidio i mewn, gan na all y bws stopio, ag i mewn a ni. Cynhesrwydd o'r diwedd, a dechreuodd y pibonwy ddod o'n trwynau doddi, a'r eira oedd wedi glynu drosom. Erbyn cyrraedd Y Groeslon, cawsom orchymyn i neidio oddi ar y bws, gan na allai'r bws aros, a neidio allan bu raid, fel plant, roedden wedi dysgu'r tric yma ers peth amser. I ffwrdd a ni fesul un fel milwyr yn neidio allan o awyren bron. Roeddwn yn falch iawn o gyrraedd adref y diwrnod hwnnw. I goroni'r cwbl, roedd y bechgyn blwyddyn gyntaf yn gorfod gwisgo trwosus cwta i fynd i'r ysgol. Bore drannoeth, awyr las a haul llachar. 'Roedd yr eira wedi lluwchio ym mhob man, ac ar y ffordd fawr, roedd y cyngor wedi llwyddo i agor un llwybr o'r ffordd rhwng Y Groeslon a Phenygroes. Penderfynu`r diwrnod hwnnw mai'r peth doethaf oedd peidio â mynd i'r ysgol.
**Beth oedd eich profiad chwi o'r diwrnod hwn, arhosoch yn yr ysgol dros nos ynteu ei mentro hi adref, gadewch i ni wybod?**

**Ifor Williams**

## Cwt be ar y Foel Gron?



Fe gafodd chwilfrydedd rhai trigolion pentre'r Waunfawr ei ail-gynnau yn ddiweddar wrth iddynt geisio dyfalu beth oedd gwir bwrpas y "cwt geifr" ar ochr y Foel Groen uwchben Nant y Betws. Un o'r criw oedd Dafydd Whiteside Thomas, a gyhoeddodd ffrwyth ei ymchwil ym mhapur Bro Eco'r Wyddfa ym mis Rhagfyr 2014.

Dangosodd Dafydd bod y cwt yn mynd yn ôl i 1816 o leiaf, ac mae ei gyflwr fel newydd. Ei gasgliad oedd bod tystiolaeth y gallai fod yn a) cell meudwy (Garmon o bosib), b) cwt bugail neu c) gwt godro geifr. Nid oedd Dafydd am gael ei dynnu i unrhyw gyfeiriad gan ddweud wrth y darllennydd "dewiswch chi!"

## Twrci cyntaf Cymru?

Cefais fy sbarduno gan ymweliad Albert, y Twrci, i stiwdio Galwad Cynnar cyn y Nadolig i edrych ar gywydd gan Wiliam Cynwal lle mae'n gofyn i Edwart ap Rhosier (boneddigyn o Riwabon o deulu Eutun) am dri thwrci, un ceiliog a dwy iâr. Bu farw Wiliam yn 1587 ac felly mae'n debyg bod Edwart yn berchen ar rai o'r adar cyntaf i gyrraedd Cymru. Mae'n amlwg bod yr 'edn mawr hynod', yn enwedig pen y ceiliog, yn gwneud argraff ddwys ar Wiliam:

Edn enbyd yn ei unbais  
Acw i syr fal lacâi Sais,  
A bogail pan fo'n bygwth  
Uwch y trwyn, edrychiad rhwth,  
A'i dagell wedi digio  
Yn goch fydd dan ei guwch fo.

Ynghylch y cwpled olaf, diddorol nodi'r sylw hwn yn yr Encyclopedia Britannica:

> *When males are excited, a fleshy flap on the bill expands, and this, the wattles and the bare skin of the head and neck all become engorged with blood, almost concealing the eyes and bill.'*

Does dim sôn yma am fwyta twrci ond disodlwyd yr alarch yn raddol yr alarch ar fyrddau'r boneddigion gan y twrci dros y canrifoedd dilynol.

**Howard Williams**

## Rhew ar y Migneint



Dyma rew boreuol ar y Migneint - yr Arenig yn y cefndir. -2 radd canradd am 9 y bore, 13 Rhagfyr 2014 **Gwyn Williams**

## Pysgodyn clicied ym Mhontllyfni



Corff pysgodyn clicied llwyd *Balistes capriscus* a gafwyd ar y traeth ym Mhontllyfni, Arfon, ar y 20 Rhagfyr 2014. Dyma ddywed y wefan "British Sea Fishing":

> *Triggerfish were once a very rare species around all of the coast – as recently as 2005 a triggerfish being caught in British waters made national news, but now triggerfish are being caught in the UK more and more often, to the extent that they are approaching near-common status in certain areas around the southern parts of the British Isles and there is evidence to suggest that they are making their way northwards.*

## Caerdydd 1762

Ar ôl Waun Elai mis diwethaf dyma sylw arall am Treganna (Canton), Caerdydd o'r un llaw:

> *This mg [morning] ye full moon tide run`d [ran] further and by a great storm more dangerous than it did for several yrs past, and meeted with ye flood of ye night past yt [that]John Jenkin of Canton was in danger of loosing all his sheep on ye Granges, some of ym [them] drowned and ye current made great destruction on ye sea walls - this day cloudy and often heavy showers of rain wind S.W*

**Dyddiadur William Thomas, Michaelston-super-Ely**

## Crempogau ia yn yr Alban

*....the first time the pancakes, more commonly found in the Antarctic or the Baltic Sea, have been seen on the River Dee* (yn sir Aberdeen)..

## Cyfeillachu yn y ffosydd Dydd Nadolig 1914 (rhewi'n gorn, ond dim son am gêm bel droed)

*Dearest Mother I am writing this in the trenches in my "dug out" with a wood fire going and plenty of straw it is rather cosy although it is freezing hard and real Christmas weather - I think? have seen one of the most extraordinary sites today that anyone has ever seen - about 10 o`clock this morning I was peeping over the parapet when I saw a German waving his arms and presently two them got out of their trenches and came towards ours. We were just going to fire on them when we saw they had no rifles so one of our men went out to meet them and in about two minutes the ground between the two lines of trenches was swimming with men and officers of both sides, shaking hands and wishing each other a happy Christmas. This continued for about half an hour when most of the men were ordered back to the trenches for the rest of the day nobody has fired a shot and the men have been wandering about at will on the top of the parapet and carrying straw and firewood about in the open - we have also had joint burial parties with a service for some dead - some German and some ours - who were lying out between the lines..... I have been taking advantage of the truce to improve my "dug out" which I share with DM Bain the Scotch rugger international an excellent fellow. We put on a proper roof this morning and now we have got a tiled fireplace and brush wood and straw on the floor. We leave the trenches tomorrow and I shan`t be sorry as it is much too cold to be pleasant at nights.... 27th I am writing this back in billets.... the same business continues...*

Adref yn Llandudno dyma ysgrifennodd Harry Thomas yr un diwrnod:

*Barometer tonight 29.65. The frost has gone & the day without actually rain has been damp and cold. The wind passing Talyfan & Foel Fras. Very reprehensible for Christmas morning but I rise late 10 a.m. ..... Take bunches of berried holly to .... grave at Llanrhos.....*

## Mor olau, mor hwyr?

Mewn cerdyn post wedi ei ysgrifennu yng ngyffiniau Abergele yn ôl y marc post, dyddiedig 1 Gorffennaf 1908, dywedodd y cyfaill fel hyn:

> *"Still alive in spite of the heat! It was absolutely roasting yesterday* [1 Gorffennaf, y cerdyn wedi ei ddyddio yr 2[ail]]. *I sat in the shade of a haystack for a long time reading. It was delightful. It was so light last night that i could read easily at 1030."*

Daeth y rheswm am barhad hwyr y golau y noson honno o bapur newydd y Llandudno Advertiser 4 Gorffennaf 1908:

> *THE AURORA BOREALIS. A MAGNIFICENT SPECTACLE. Wednesday night last, July 1st, will be remembered and handed down to history as the lightest on record. At 11 30 it was possible to read the evening paper on the promenade, and at no time during the night could it be described as being more than twilight. Some authorities declare that this was due to a northern day-break) commonly known as the "Aurora Borealis," a display that has many times been seen at, Llandudno, but never with such magnificent effect.....*

Malwen yn ei ogof mewn wal

Gofynnais (DB) i Gabriel fel Llydawr o Ffrancwr os oedd o wedi mwynhau bwyta'r falwen ar ôl tynnu ei lun (stereoteip hil anghywir mi wn!). Dyma ei ateb:

*Bon, eh bien, j'm'en va manger l'escargot, avec un béret sur la tête, une baguette de pain devant moi et un bon rouge! Rassurant, non?* GT

## Wystrys y coed ar arwyddbost capel




*Oyster Mushrooms, Pleurotus ostreatus growing from the Chapel name board of Shiloh Chapel, Tregarth on 13/12/2014, which I thought was quite unusual.*

**Debbie Evans**

*A common edible mushroom. It was first cultivated in Germany as a subsistence measure during World War and is now grown commercially around the world for food. ...contains statins such as lovastatin which work to reduce cholesterol*

**Wikipedia**

## Rhyfeddodau Rwmania trwy stamp a cherdyn




*Leporele* (ysgyfarnog) ar gerdyn post a dderbyniwyd o Romania Nadolig 2014.

Y neges ar y cerdyn oddiwrth David Greenslade oedd "Gwlad llawn rhyfeddodau mae Romania o hyd - ym mynyddoedd mawr y Carpats [Mynyddoedd Carpathia] mae'n hawdd dod ar draws arwyddion eirth - ac mae dynion yn gwisgo fel eirth cyfnod y Calan..."



*Image prise le 19 Juillet 2008 lors de la route faite vers Douarnenez. Ici nous sommes à l'ouest de la rade de Brest, au fond la presqu'ile de Crozon, on va virer à la Pointe des Espagnols (qui ferme la partie sud de la rade)*

*Depuis 1992, tous les quatre ans, Brest est le lieux d'une fête maritime que l'on peut qualifier de grandiose. Pendant une semaine s'y donnent rendez-vous des voiliers venant du monde entier, voiliers-écoles, voiliers historiques, orgueil de différentes marines… Depuis les plus grands quatre-mâts tels le Sedow ukrainien, le Kruzenstein russe qui font plus de 110 mètre chacun jusqu'aux plus modestes. Bref, plus de 3000 bateaux (oui, trois mille) alignés sur les quais, voguant sur la rade… Vraiment la fête qui attire près de deux millions de touristes. Vers la fin du séjour toute cette armada appareille et met le cap sur Douarnenez. Vu de terre ou mieux depuis un autre bateau, le spectacle est époustouflant.*

**Gabriel Quere [GT]**

## Jac lantar




Ai cyfeiriad at y Jac Lantar yw enw'r pentref bach ger Porthmadog? Beth yw'r dystiolaeth am jac lantar yng Nghymru. Pam na welir byth y ffenomenon mwyach?

Yr unig gyfeiriad yn y Tywyddiadur hyd yma yw hwn o swydd Northampton:

*...saw two 'Will o whisps' last night* [neu *Jack a lanthorn*] *- I have often seen these vapours or what ever philosophy may call them.....* **Dyddiadur John Clare ISBN 1 85754 288-6**

Morfa Harlech
Peli tân yn codi efallai yn gysylltedig â ffawt Mochras, Edward Llwyd hefyd wedi ystryried ffenomenon tebyg yn 1693 Morfa Harlech a ysbrydolodd efallai Elis Wyn I gyfansoddi'r gweledigaethau tua 1693.

**Twm Elias**

## Gwylannod Ysgol Brynhyll

Rhuthun, Ionawr 2015: Dwi wedi sylwi bod na lwythi o wylanod ger Ysgol Brynhyll (roedd o`n fryn hyfryd cyn iddynt godi`r ysgol). Tybed a oes yna boblogaethau tebyg o wylanod ger ysgolion eraill Cymru? Dwi`n siwr eu bod nhw yn byw ar wastraff bwyd y disgyblion



**Gwyn Williams**

Llun Mehefin 2010:Ar daith Cymdeithas Edward Llwyd i Gaergybi. Ydy, mae gwylanod yn hoffi hufen ia Magnum !

**Alun Williams**

**Gin a thonic?**
Sylwch bod llythrennau GT mewn ambell i destun yn golygu dolen i gyfieithiad trwy Google Translate.

## Gwiddonyn gwrddnerth




Fe wnes i ddarganfod y gwiddonyn yma ar wal lefn yn yr ardd [ym Mhenygroes y 14 Mai 2014]. Am ei fod yn ymddangos yn farwol rhaid oedd ei aflonyddu ac, yn wir i chi, symudodd y creadur er mwyn osgoi y bwli mawr. Maint y corff heb y trwnc (*rostrum*) ydoedd 4-5mm. Does'na ddim gwiddonyn tebyg iddo yn fy llyfr Collin's Pocket Guide, *Insects of Britain and Western Europe*.

**Nigel Pitts**

*Yes, a weevil* [gwiddonyn] - *Cionus scrophulariae. Feeds on figwort* [gwrddnerth].

**John Bratton**

A dyma weld ar wefan Nature Spot nad ydi'r chwilen fach yma wedi cael ei gofnodi ym Mhenygroes o'r blaen. Ymlaen a fo i'r Ganolfan Gofnodi Leol COFNOD.






A dyma lun o'r gwrnerth. (neu y ddeilen ddu dda, neu dail duon), ond defnyddir yr enw yn draddodiadol am *Veronica officinalis* a *Prunella vulgaris*. Wedi eu henwi ar ôl Llywelyn ap Gwrnerth (GPC)

## Ystyriwch y brain



Cigfran, ger y Twll Du ar ail ddiwrnod y flwyddyn newydd, roedd yn ddigon eofn (neu lwglyd) i ddod atom i hel briwsion mins peis! **Gerallt Pennant**




Talcen tŷ ym Mhenygroes tua'r un pryd.

*Hen adar castiog, cableddus, croch,*
*Wedi hel ar nos Sul at y Chwarel Goch,*
*Gan regi a rhwygo ym mrigau'r coed...*

Yn ôl cylchgrawn Barn (Rhifyn 623/4), mae Angharad Tomos wedi dyfynnu TH Parry Williams ar dalcen ei thy:

"Un dydd" meddai, "daeth Sais heibio, a gofyn am gyfieithiad. '*Consider the crows - and that's what I did*,' medda fi. Edrychodd y dieithryn yn hurt. Na, nid popeth all gael ei gyfieithu".

**Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd (Rhif Elusen: 1126027).**
**Mae Prosiect Llên Natur ar Facebook a Twitter.**
**Cysylltwch â ni trwy llennatur@yahoo.co.uk**

## Mwyalchod epilgar a chartrefol



Mae Tom Jones, Golan wedi bod yn dyst i bâr o adar duon (roedd posibl adnabod yr iar unigol wrth glwt bach gwyn ar ei brest) oedd wedi nythu yn yr un nyth dair (hwyrach bedair) blynedd yn olynol. Dyma ddywedodd Tom:

> Mae hyn yn mynd yn ôl bedair blynedd... Bu yma am tua 4 blynedd yn nythu, a hyn oedd yn ryfeddol roedd yn cael 2 i dri nythiad y tymor ac fe roedd gan y beinw ifanc fib golau ond nid yn hollol wyn hefyd fel eu rhiant. Erbyn hyn mae'r gwyn wedi diflannu neu mae'r [unigolyn hwnnw] wedi symud rhywle arall.
>
> Bu i'r iar sydd wedi dod ar ei hôl fod yma 3 blynedd. Bu'n dywyll fel y disgwilir i iar Aderyn du fod ac mae hon eto yn rhyfeddol trwy iddi gael 3 a hyd yn oed 4 nythiad y tymor.
>
> Y tymor 2014 cafodd 4 nythiad o gywion yn yr un un nyth yn yr hen gwt ieir. Roedd y cywion o gwmpas yr ardd am gyfnod tra roedd hi yn eistedd yr ail nythiad wedyn fel roedd yr ail yn barod i adael y nyth roedd y rhai cyntaf yn cael eu herlid oddi yma a felly pob nythiad tan y pedwerydd, mae epil y nythiad olaf yn dal o gwmpas ond dim golwg o'r iar. Felly fe fagwyd 4 cyw i bob nythiad ac fe welais fod yr rhain wedi tyfu i fyny yn oedolion bron, 16 o gywion i gyd mewn un tymor. Tybed oes rhywyn arall wedi sylwi ar rhywbeth tebyg? Ydi hyn yn rhyw fath o record i'r Aderyn du?

Cofnododd Tom hynt yr adar ers 2011 yn y Tywyddiadur. Mae'r hanes yn annisgwyl efallai gan fod adar mân fel arfer yn codi nyth o'r newydd i bob deoriad oherwydd, yn ôl pob damcaniaeth, y peryglon afiechyd a thynnu sylw gelynion. Mae'n debyg bod ffrwythlondeb y par(au) yn yr ardd hon (rhwng 10 a 14 nythaid dros bedair blynedd) yn tystio i dywydd ffafriol y blynyddoedd dan sylw.

**Llun ar y brig gan Gareth Pritchard, Llandudno**

## Cewri Mynydd

Ar 4 Hydref 1804 [soniodd John Wynne Griffith (1763-1834) o'r Garn, Henllan ger Dinbych] am daith i gopa'r Wyddfa gyda'i gyfaill William Withering (1775-1832) drwy gychwyn o Gapel Curig am hanner awr wedi saith ac ymlaen drwy Gwm Dyli. Mae'r ffordd hwylusaf a mwyaf poblogaidd o'r ochr ogleddol erbyn heddiw yn cychwyn o Ben-y-Pas ar hyd un ai Lwybr y Mwynwyr neu Lwybr Bwlch-y-moch. Doedd y sarn ar draws Llyn Llydaw a adeiladwyd gan y mwynwyr i'r gwaith copr ddim yn bod bryd hynny ac felly rhaid oedd dilyn glannau deheuol y llyn er mwyn cyrraedd Llyn Glaslyn. Maent yn cofnodi ffenomenon [Llyfr ymwelwyr Capel Curig 1801-1836 Archifdy Gwynedd XM5171/1] a welwyd tra'n dilyn crib y mynydd. Gelwir y ffenomenon hon yn 'glorie' yn Saesneg a'r unig enw Cymraeg y gwn amdano yw 'cewri'r mynydd'. Fe'i gwelir pan mae cerddwr neu ddringwr yn dilyn cwrs crib fynyddig uwchben dyfnder yn llawn niwl. Ymddengys cysgod anferth y cerddwr yn y niwl oddi tano a phan dywynna'r heulwen arno drwy orchudd tenau o gwmwl mae enfys fechan i'w gweld yn amgylchynu ei ben.

**Dewi Jones ("Ar Drywydd y Dringwyr" 2010)**



A dyma gawr mynydd (ar lun ei gysgod ei hun) a welodd Jeremy Trumper ar y 6 Ionawr 2005 ar Trum y Ddisgl'

## Glaw Pelcomb, Penfro 2014

.... mewn dau le, un yn y gogledd (Llanfaglan, glas, Caernarfon 2km o'r môr, gan Ifor Williams) a'r llall yn y de (Pelcombe, piws, Hwlfforddd, tua 7km o'r môr, gan John Lloyd Jones).

